

Dyddiad: Dydd Mercher 26 Chwefror 2003

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Safle Tirlenwi Nantygwyddon:
Adroddiad ar Weithredu'r Argymhellion ar Iechyd Dynol

Diben

1. Mae'r papur hwn yn nodi'r hynt o ran gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â iechyd yn Adroddiad Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad (ACTh) ar yr Ymchwiliad Annibynnol i Safle Tirlenwi Nantygwyddon (NYG) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Mae'r papur yn cyfeirio at adroddiad diweddar yr Asiantaeth Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau (ATSDR) a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Meddygol trwy Ganolfan Iechyd Cymru (cysgodol), ac sydd eisoes wedi ei gylchredeg i holl aelodau'r Pwyllgor.
2. Adroddiad rhagarweiniol yw adroddiad yr ATSDR a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror. Mae'r ATSDR wedi gwahodd ymatebion i'r adroddiad o fewn cyfnod ymgynghori 60 diwrnod, yn unol â'i gweithdrefnau safonol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth lunio'r adroddiad terfynol. Mae hawl gan aelodau'r Pwyllgor roi sylwadau ar yr adroddiad trwy Ganolfan Iechyd Cymru.
3. Bydd cynrychiolwyr Canolfan Iechyd Cymru (cysgodol) a'r Prif Swyddog Meddygol yn bresennol yn y cyfarfod.

Cefndir

4. Ym mis Tachwedd 2000 comisiynodd y Pwyllgor ACTh ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon (NYG). Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwilydd ym mis Rhagfyr 2001. Ym mis Mawrth 2002 cyhoeddodd y Pwyllgor ACTh ei fod yn llwyr dderbyn argymhellion yr Ymchwilydd.
5. Fel rhan o'i ymchwiliad, roedd yr Ymchwilydd wedi adrodd ar dystiolaeth o effeithiau andwyol ar iechyd y bobl leol, ymateb asiantaethau cyhoeddus i bryderon iechyd lleol, ei asesiad yntau o'r ymchwiliadau a'r gwaith ymchwil a wnaed, a sut cyflwynwyd y wybodaeth hon i'r bobl leol. Dyma gasgliad yr ymchwilydd

"Hyd yn hyn, nid yw astudiaethau ym maes Iechyd y Cyhoedd wedi bod yn ddigon i gynnig unrhyw esboniad o'r arsylwadau empiraidd ar broblemau iechyd a nodwyd gan y trigolion nac i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan astudiaethau epidemiolegol. Mae angen bellach i astudiaethau iechyd fod yn benodol i'r safle, yn benodol i sylwedd(au) ac yn benodol i unigolion. Dylai fod modd plotio nifer yr achosion a welwyd o bwysau geni isel yng nghyffiniau Nantygwyddon, a gallai hyn fod yn ddiddorol ac yn berthnasol iawn yng ngoleuni'r astudiaeth SAHSU a gyhoeddwyd yn ddiweddar."

6. Gofynnwyd i Brif Swyddog Meddygol Cymru fynd rhagddi â'r argymhellion a ganlyn sy'n ymwneud ag iechyd ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ACTh: -

" [16.6] Yr wyf yn argymhell bod astudiaethau iechyd penodol yn cael eu comisiynu mewn perthynas ag unigolion/dos/sylwedd(au) gan samplu/profi a dadansoddi gwaed, wrin a braster. Dylai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, ynghyd â sylwadau annibynnol gan arbenigwyr, cyn gynted ag y bo modd. Mae angen gwneud y profion a'r dadansoddiadau hyn yng nghyd-destun data am lygredd amgylchynol a data am lygredd sy'n benodol i'r safle. Dylid mynd ati i geisio plotio pwysau geni isel yng nghyffiniau Nantygwyddon cyn gynted ag y bo modd.

[16.14]Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut orau y gellir defnyddio asesiadau ffurfiol o effaith (amgylcheddol, iechyd ac ariannol) yng Nghymru i roi'r ystyriaeth briodol i oblygiadau cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff.

[16.15] Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut y gall cymunedau geisio ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd er mwyn tawelu eu hofnau ac ymateb i ddiffyg gweithredu neu fethiant ar ran y cyrff rheoliadol/diogelu iechyd."

Mynd rhagddi ag Argymhelliad 16.6 ar astudiaethau iechyd penodol

7. Er mwyn ei helpu i asesu'r angen am astudiaethau iechyd pellach, nododd y Prif Swyddog Meddygol y byddai'n ceisio cyngor gan arbenigwyr yn y maes ar lefel ryngwladol. O ganlyniad, comisiynodd Canolfan Iechyd Cymru (cysgodol) i geisio cymorth gan yr Asiantaeth Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau (ATSDR) yn Atlanta, UDA. Yn ei adroddiad (para 7.8) cymeradwyodd yr ymchwilydd ddull yr ATSDR.

ATSDR

8. Mae'r ATSDR yn rhan o wasanaeth iechyd cyhoeddus Adran Iechyd a Gwasanaethau Dynol yr Unol Daleithiau. Fe'i crëwyd ym 1980 a'i chenhadaeth yw atal yr effeithiau andwydol ar iechyd dynol a'r dirywiad yn ansawdd bywyd a ddaw yn sgil dod i gysylltiad â sylweddau peryglus o safleoedd gwastraff, sylweddau a ollyngir yn anfwriadol, a ffynonellau llygredd eraill sydd yn yr amgylchedd, ac amddiffyn pobl rhag iddynt ddod i gysylltiad â'r sylweddau hyn yn y lle cyntaf. Mae'r ATSDR yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau gan gynnwys asesiadau iechyd cyhoeddus ac mae wedi gwneud gwaith ar safleoedd tirlenwi tebyg yn yr UDA ac Ewrop. Mae'n arfer gan yr ATSDR i anfon tîm

i weithio gyda chymunedau lleol i ymchwilio a llunio adroddiad ar bryderon iechyd y gymuned ynghylch ffynonellau llygredd lleol.

9. Gwahoddwyd yr ATSDR i roi cyngor ar yr argymhelliad am astudiaethau iechyd pellach mewn perthynas â safle tirlenwi Nantygwyddon. Rhoddwyd copïau i'r Asiantaeth o'r holl astudiaethau iechyd a oedd ar gael a'r dystiolaeth a ystyriodd Archwilydd Nantygwyddon. Yn ddiweddarach cawsant gopi o adroddiad drafft ar Non-Hodgkins Lymphoma yn ogystal â chopïau o adroddiadau'r Archwilydd a'r Pwyllgor ACTh.

10. Rhoddwyd gwahoddiad hefyd i'r ATSDR ymweld â'r safle ac ymgynghori â'r gymuned leol yn unol â'u harfer. Canolfan Iechyd Cymru wnaeth gynnal a threfnu ymweliad ATSDR yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Tachwedd 2002. Aeth yr ATSDR i ymweld â'r safle tirlenwi a'r amgylchedd lleol; rhoddodd gyflwyniadau mewn briff i'r wasg; mynychodd gyfarfodydd gyda grwpiau ac unigolion, ac arweiniodd seminar cyhoeddus undydd, gan ateb cwestiynau. Cyfarfu'r ATSDR ag ystod eang o bobl o'r gymuned, gan gynnwys disgyblion, pensiynwyr, swyddogion yr awdurdod lleol a chynrychiolwyr democrataidd. Cafodd ymweliad cynrychiolaeth yr ATSDR â Chymru dderbyniad da a chawsant groeso cynnes gan y gymuned leol.

11. Mewn seminar cyhoeddus gwnaethant gytuno i sicrhau bod eu hadroddiad ar eu hymweliad ar gael i'r gymuned. Diben yr adroddiad oedd cyflwyno gwerthusiad ATSDR o'r broses asesu iechyd cyhoeddus a ddefnyddiwyd i ddod i benderfyniad ynghylch iechyd y cyhoedd a byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan NYG.

Adroddiad Rhagarweiniol yr ATSDR

12. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o brif gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad.

13. Yn gyffredinol mae'r adroddiad yn tawelu ofnau ynghylch unrhyw beryglon presennol sy'n gysylltiedig â'r safle tirlenwi. Ar sail adolygiad o'r ddogfennaeth sydd ar gael a'r gweithrediadau ar y safle, mae'n cadarnhau ei bod yn ymddangos bod y gwaith o drin a monitro nwyon tirlenwi ar safle NYG yn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r astudiaethau a'r data sydd ar gael hefyd yn dangos nad yw lefelau'r dwr wyneb, trwytholch neu bridd neu waddodion halogedig yn ddigonol i gyfiawnhau pryderon ynghylch iechyd cyhoeddus - er y mae'n bosibl y gallant wedi peri problemau o ran arogleuon a niwsans cyhoeddus am gyfnod. Dylai gwerthusiadau o'r data monitro yn y dyfodol fod yn ddigonol i bennu a fydd lefelau'r gollyngiadau yn y dyfodol yn ddigon uchel i beri pryder ynghylch iechyd y cyhoedd.

14. Ar dudalennau 35-38 mae'r adroddiad yn trafod cyfyngiadau astudiaethau epidemolegol o gwmpas safleoedd tirlenwi, ac maent yn tynnu sylw at y ffaith bod gwendidau'r astudiaethau a gynhaliwyd yn NYG hefyd i'w gweld yn y rhan fwyaf o astudiaethau eraill sydd yn delio â'r agosrwydd rhwng trigolion a safleoedd gwastraff peryglus a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau, Canada ac Ewrop.

15. O ran yr astudiaethau sy'n ymwneud â NYG, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad ei bod hi'n debygol

bod dod i gysylltiad â nwyon tirlenwi o'r safle wedi achosi cynnydd yn y nifer o bobl sy'n dioddef amrywiaeth o symptomau a phroblemau iechyd tymor byr ee pen tost a phroblemau gyda'r llygaid, y trwyn a'r llwnc. Ar y llaw arall, nid yw'r dystiolaeth epidemolegol yn rhoi rhyw lawer o gefnogaeth i unrhyw berthynas rhwng dod i gysylltiad â'r safle a marwolaeth 'pob-achos', marwolaeth o ganlyniad i achosion penodol, amllder canser, neu gyfraddau clefydau sy'n gysylltiedig â'r system atgynhyrchu fel namau geni, pwysau geni isel ac erthyliadau digymell.

16. Yn atodiad 1 yr adroddiad mae'r ATSDR yn ailddatgan ei chyngor i'r Prif Swyddog Meddygol (PSM) ar yr argymhelliad am astudiaethau pellach. Yng ngoleuni'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â chemegau ar y safle, nid yw'r cyngor y dylid profi gwaed, wrin a braster, yn briodol. Ar dudalen 40 yr adroddiad mae'r ATSDR yn anghytuno â'r argymhelliad ynghylch pwysau geni isel. Mae'r ATSDR yn cadarnhau nad oes tystiolaeth i brofi bod gormod o achosion o bwysau geni isel yn y pum ward ger y safle.

17. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o bryderon iechyd a leisiwyd gan drigolion lleol - gan nodi er bod llawer o bobl yn dweud mai'r tirlenwad oedd y gyfrifol, nid oedd eraill o'r un farn. Daw i'r casgliad bod astudiaethau unigol wedi delio'n briodol â phryderon iechyd cyhoeddus ond bod i bob un ei chyfyngiadau oherwydd y dulliau a ddefnyddir. Mae mwy o gyfyngiadau am nad oes digon o integreiddio rhwng y dulliau - ac mae'n bosibl nad oedd y canlyniadau wedi eu mynegi'n glir i'r trigolion yr effeithir arnynt.

18. Daw'r adroddiad hefyd i'r casgliad bod llawer o'r dadleuon presennol ynghylch y safle yn deillio o anawsterau o ran cael proses ddigonol ac integredig ar gyfer cynnal asesiadau iechyd cyhoeddus sy'n benodol i safleoedd. Byddai proses o'r fath yn cynnwys casglu pryderon iechyd y gymuned, cael gwerthusiad integredig o ddata am yr amgylchedd ac iechyd, strategaeth ar gyfer cysylltu a thrafod â'r gymuned, a chyfres o feini prawf penodol neu gasgliadau iechyd cyhoeddus a all yn y dyfodol lywio gweithgareddau sy'n benodol i'r safle.

19. Mae'n gwneud nifer o argymhellion ar gyfer sefydlu proses o'r fath ac ar gyfer safle Nantygwyddon yn benodol.

Camau Nesaf

20. Mae gan rhagadroddiad yr ATSDR oblygiadau ar gyfer **Argymhelliad 16. 6** (sy'n ymwneud ag astudiaethau pellach) ac **Argymhelliad 16.15** (sy'n ymwneud â sut y gall cymunedau geisio ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd).

21. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn ystyried casgliadau ac argymhellion rhagadroddiad yr ATSDR yn fanwl, tra'n bod yn aros am yr adroddiad terfynol. Mae'r argymhellion ar gyfer NYG yn benodol yn arwain at gamau gweithredu ar gyfer yr asiantaethau a'r cyrff cyhoeddus. Hefyd bydd yr adroddiad a'i argymhellion yn cael eu trafod gyda hwy.

22. Mae Canolfan Iechyd Cymru (cysgodol) hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw wrth hwyluso'r broses ymgynghori rhwng yr ATSDR a'r gymuned leol. Bwriedir y dylai rôl y Ganolfan gynnwys gweithio gydag asiantaethau a chymunedau lleol wrth ymateb i bryderon lleol. Golyga hyn y gall y Ganolfan ymateb i'r math o geisiadau gan y gymuned, a ragwelir yn **Argymhelliad 16.15**. Mae adroddiad yr ATSDR yn gwneud rhai argymhellion penodol i'w hystyried ynghylch rôl y Ganolfan.

Argymhelliad 16.14

23. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i ddatblygu'r defnydd a wneir yng Nghymru o asesiadau o effaith ar iechyd. Mae'r rhaglen ddatblygu a ddeilliodd o'r ymrwymiad hwn wedi arwain at weithredu mewn sawl ffordd, gan gynnwys sefydlu Uned Cefnogi Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd Cymru. Mae'r Uned yn helpu awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar iechyd. Mae Strategaeth Gwastraff Cymru yn cynnwys canllawiau ar aseidiadau o'r effaith ar iechyd, a chymau i wella'r ffordd y mae'r Polisi Cynllunio yn ystyried materion iechyd. Mae'r broses rheoli datblygu bellach yn destun prosiect penodedig sydd yn rhan o 'Lles yng Nghymru', dull sy'n cynnwys iechyd ym mhob un o feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad ac a fabwysiadwyd yn dilyn dadl yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002.

Goblygiadau Ariannol

24. Dim yn codi'n uniongyrchol o'r papur hwn er bod goblygiadau ariannol ynghlwm wrth argymhellion yr ATSDR.

Themâu trawsbynciol

25. Mae cynnwys yr adroddiad hwn hefyd o ddiddordeb i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, felly anfonwyd copi o'r papur hwn at Glerc y Pwyllgor hwnnw.

Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

26. I'r Pwyllgor nodi a thrafod. Gall yr aelodau gyflwyno sylwadau i'r ATSDR ar yr adroddiad.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enwau Cyswllt: Christine Peat, Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd 1, Ffôn 029 2082 3515
Stephen Wall, Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd, Ffôn 029 2082 5926